# CYD-BWYLLGOR DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE

Dydd Iau, 22 Tachwedd 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd R. Stewart (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
R. Stewart, E. Dole, R. Jones and D. Simpson

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr:

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin
S. Phillips, Prif Weithredwr, Cyngor Castell Nedd PortTalbot
I. Westley, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Benfro
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
R. Phillips, Rheolwr Rhaglenni Ewropeaidd
R Llewhellin, Performance, Governance and Policy Officer
W. Smith, Swyddog Cyllid Allanol
A. Miller, Swyddog Technegol Ewropeaidd
M. Nicholls, Dinas a Sir Abertawe
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 2.00 - 3.05 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Dr J. Davidson (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant) ac S. Moore (Y Prif Weithredwr - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 31AIN AWST 2018

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 31 Awst 2018 gan eu bod yn gywir.**

4. Y DIWEDDARAF AM BROSIECT SEILWAITH DIGIDOL

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried adroddiad diweddaru ynghylch cynnydd y Prosiect Seilwaith Digidol a'r tair elfen ohono sy'n ymwneud â Dyfarnu'r Tendr Seilwaith Digidol, y Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol a 5G yng Nghymru.

Nododd y Cyd-bwyllgor fod datblygiad Dyfarnu'r Tendr Seilwaith Digidol yn unol â'r amserlen ar hyn o bryd, a bod gwaith ar yr achos busnes yn mynd yn ei flaen. Disgwylir i'r gwaith o baratoi'r cynnig llawn ar gyfer y Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol, sy'n cael ei wneud ar y cyd rhwng CUBE Ultra Ltd a Dinas a Sir Abertawe, gael ei gwblhau cyn bo hir. Disgwylir iddo gael ei gyflwyno i'r Adran dros Ddiwylliant Digidol, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Ionawr 2019. Roedd datblygiad technoleg 5G (5ed Cenhedlaeth) yn cael sylw fel rhan o ymagwedd Cymru gyfan, a arweinir gan Innovation Point.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru, mewn cyfarfod diweddar gyda chynrychiolwyr Bargen Ddinesig Bae Abertawe, wedi cefnogi'r Prosiect Seilwaith Digidol a dweud eu bod am iddo gael ei ddatblygu cyn gynted â phosibl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad diweddaru ynghylch y Prosiect Seilwaith Digidol.**

5. Y DIWEDDARAF AM BROSIECTAU'R FARGEN DDINESIG

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad diweddaru ynghylch y prosiectau lleol a rhanbarthol canlynol a ariennir gan y Fargen Ddinesig:-

- Seilwaith Digidol
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau;
- Sgiliau a Thalent;
- Yr Egin;
- Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli
- Campws Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli;
- Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer
- Canolfan Ragoriaeth Gwasanaethau y Genhedlaeth Nesaf (CENGS);
- Ffatri'r Dyfodol;
- Gwyddoniaeth Dur;
- Ardal Forol Doc Penfro

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad diweddaru ynghylch y prosiectau.**

6. **BLAENRHAGLEN GWAITH Y CYD-BWYLLGOR**

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried Blaenraglen Waith awgrymedig ar gyfer 2018/19 a oedd yn sicrhau bod rhaglen waith gyfredol ar gael i gefnogi Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaenraglen Waith Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer 2018/19.**

7. **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

8. **YR EGIN – CLWSTWR DIGIDOL CREADIGOL**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 7 uchod, y byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys yr achos busnes sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w gymeradwyo, a oedd yn cynnwys amcangyfrifon cost dangosol, a gallai datgelu'r amcangyfrifon cost dangosol hynny cyn caffael contractwr gwaith beryglu gwaith y caffaelwr.**

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried adroddiad ar Brosiect Clwstwr Digidol Creadigol yr Egin ynghyd ag adborth yn ei gylch gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**

**8.1 Cymeradwyo cynllun busnes pum achos llawn Prosiect Clwstwr Digidol Creadigol yr Egin a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w gymeradwyo.**

**8.2 Rhoi Pwerau Dirprwyedig i swyddogion wneud unrhyw fân newidiadau sydd eu hangen er mwyn cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.**

9. **ARDAL DDIGIDOL DINAS ABERTAWE A'R GLANNAU**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 7 uchod, y byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r**

**cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys yr achos busnes sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w gymeradwyo, a oedd yn cynnwys amcangyfrifon cost dangosol, a gallai datgelu'r amcangyfrifon cost dangosol hynny cyn caffael contractwr gwaith beryglu gwaith y caffaelwr.**

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried adroddiad ynghylch Prosiect Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau ynghyd ag adborth yn ei gylch gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**

**9.1 Cymeradwyo cynllun busnes pum achos llawn Prosiect Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w gymeradwyo.**

**9.2 Rhoi Pwerau Dirprwyedig i swyddogion wneud unrhyw fân newidiadau sydd eu hangen er mwyn cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.**

## 10. PENTREF GWYDDOR BYWYD A LLESIANT LLANELLI

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 7 uchod, y byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys yr achos busnes sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w gymeradwyo, a oedd yn cynnwys amcangyfrifon cost dangosol, a gallai datgelu'r amcangyfrifon cost dangosol hynny cyn caffael contractwr gwaith beryglu gwaith y caffaelwr.**

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried adroddiad ar Brosiect y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant ynghyd ag adborth yn ei gylch gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**

**10.1 Cymeradwyo cynllun busnes pum achos llawn Prosiect y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w gymeradwyo.**

**10.2 Rhoi Pwerau Dirprwyedig i swyddogion wneud unrhyw fân newidiadau sydd eu hangen er mwyn cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**